# Bwletin Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych

***Ionawr 2012***
***Rhifyn 39***


*Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych*
*Canolfan Naylor Leyland*
*Stryd y Ffynnon*
*Rhuthun LL15 1AF*

*Ffôn: 01824 702441*
*Ffacs: 01824 705412*

*e.bost office@dvsc.co.uk*

*Newvol - Cwmni cyfyngedig drwy warant 3132487*
*Elusen Gofrestredig 1054322*

*Prif Swyddog Gweithredol*
***John Watkin***

*Swyddog Datblygu Iechyd , Gofal Cymdeithasol a Lles*
***JoAnne Williamson***


## TEULUOEDD YN GYNTAF

GWAHODDIAD TENDRO

Gwahoddir mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chonsortia i gyflwyno tender i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau i wella bywydau teuluoedd bregus yn Sir Ddinbych.

O fis Ebrill 2012 ymlaen bydd arian Teuluoedd yn Gyntaf yn disodli ariannu Cymorth ag fe ddylai unrhyw fudiad sy'n dymuno tendro i fod yn ddarparwyr rhaglen yn Sir Ddinbych, gyflwyno eu tender i Gyngor Sir Ddinbych erbyn 31ain Ionawr 2012.

Y prosiectau strategol yw:

- Macsimeiddio incwm
- Sgiliau hanfodol a mynediad i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant
- Magu plant (0-18)
- Gwasanaeth Cefnogaeth Teulu
- Cefnogaeth Ieuenctid (i gynnwys darpariaeth anabledd)
- Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc (am flwyddyn)
- Hydythedd Teulu
- Darpariaeth Gofal Plant
- Chwarae (yn cynnwys darpariaeth anabledd)
- Datblygiad Gweithlu

Gwelir y manyleb gwasanaeth yn llawn ar www.sell2wales.co.uk neu cysylltwch â Suzanne Bradley CGGSDd am fanylion pellach (01824 702441, suzanne@dvsc.co.uk).

## *Ymgyrch Diwedd ar Gam-Drin*

Mae Age Cymru wedi lansio ymgyrch am ddeddf newydd i gefnogi ag amddiffyn oedolion sydd mewn perygl o'u cam-drin. Am ragor o wybodaeth ag i roi eich cefnogaeth ewch i - http://www.ageuk.org.uk/cymru/get-involved/make-a-donation3/rule-out-abuse/

## Helpwch ni i'ch Cadw'n Iach

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn ac yn rhoi cyngor i bobl am y ffyrdd gorau i gadw'n ddiogel pan mae'r oer a rhewllyd tu allan:

- **Gwisgwch ddillad priodol ac esgidiau call**
- **Lapiwch eich hun yn gynnes** i helpu i gadw'r oerfel draw
- **Gwnewch yn siŵr fod digon o feddyginiaeth gennych chi**, yn enwedig os oes gennych eisoes gyflwr fel asthma
- **Gwiriwch fod eich cymdogion yn iawn**, yn enwedig pobl hŷn i wneud yn siŵr bod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt

Er bod cymryd y camau rhagofalus syml hyn yn gallu helpu i osgoi salwch, mae'n ffaith bod pobl yn fwy tebygol o ddal annwyd a ffliw yn y gaeaf yn gyffredinol. Felly, mae hyn yn oed yn fwy pwysig bod pobl yn gwybod sut i ddefnyddio'r amrywiaeth lawn o wasanaethau GIG i'w cadw'n iach ac allan o'r ysbyty y gaeaf hwn.

Gallwch drin llawer o fathau o salwch yn eich cartref gan ddefnyddio meddyginiaeth dros y cownter fel paracetamol a meddyginiaeth annwyd/ffliw, yfed digon o hylif a gorffwys digon. Gall fferyllwyr lleol roi cyngor am drin mân gyflyrau fel cur pen, dolur gwddf neu beswch ac annwyd trafferthus, a rhoi cyngor iechyd wyneb wrth wyneb cyffredinol.

Hunan ofal yw'r dewis gorau i drin mân salwch fel annwyd neu beswch. Fodd bynnag, yn achos salwch sy'n barhaus neu'n gwaethygu, dylech geisio cyngor meddygol oddi wrth eich **Meddyg Teulu** neu **Galw Iechyd Cymru** ar **0845 46 47** neu www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Mae'r ffliw yn ailymddangos bob gaeaf, yn heintus iawn ac yn lledaenu'n gyflym. Ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, mae'r **ffliw** yn annymunol ond nid yw'n ddifrifol.

Mae'r pigiad ffliw yn ffordd dda iawn o ddiogelu eich iechyd ac iechyd y bobl sy'n agos atoch chi. Os ydych dros 65 oed, mewn grŵp mewn perygl, neu'n brif ofalwr unigolyn oedrannus neu anabl gallwch gael pigiad am ddim rhag y ffliw tymhorol gan eich Meddyg Teulu neu Nyrs Practis.

## Newidiadau Dros Dro i Wasanaethau Gofal Iechyd Conwy a Sir Ddinbych

Oherwydd cynnydd disgwyliedig mewn galw yn ystod y gaeaf ynghyd â materion sy'n ymwneud â recriwtio, salwch staff a'r sefyllfa ariannol mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi cynlluniau yn eu lle i gyfnerthu eu gwasanaethau er mwyn gallu parhau i weithio yn ddiogel ac effeithiol.

Yn Sir Ddinbych bydd 6 gwely ychwanegol ar gael yn Ysbyty Cymunedol Rhuthun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gau'r Uned man anafiadau dros dro a gofyn i gleifion fynychu meddygfa eu Meddyg Teulu neu, os bydd angen, Uned Man Anafiadau Ysbyty Cymunedol Dinbych a fydd yn parhau i weithredu 8am – 6pm dydd Llun i ddydd Gwener.

Bydd gallu ychwanegol yn Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei ddarparu trwy drosglwyddo staff medrus o MIU Bae Colwyn, a fydd yn cau dros dro.

**Ymgynghoriad ar y ddogfen ddrafft 'Gyda'n Gilydd yn Erbyn Canser'**, Cynllun Cyflawni cenedlaethol ar gyfer y GIG hyd at 2016. **http://wales.gov.uk/docs/dhss/consultation/111219togetheragcanceren.pdf**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau a safbwyntiau gan glinigwyr, rheolwyr y GIG a defnyddwyr gwasanaethau. Erys canser yn flaenoriaeth fawr i Gymru. Dros y blynyddoedd nesaf, rhagwelir bod gan tua un o bob tri unigolyn ganser cyn iddynt gyrraedd 75 oed a thua phedwar o bob 10 rywbryd yn ystod eu bywyd. Mae canser yn ddiagnosis cyffredin ac mae nifer yr achosion yn cynyddu.

Mae'r Cynllun Cyflawni drafft yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer poblogaeth Cymru a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer gwasanaethau canser y GIG.

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 05 Mawrth 2012 ar un o'r ffurfiau a ganlyn:

Ffurflen ar-lein: Defnyddiwch y ffurflen ar-lein i ymateb

E-bost : adultsandchildrenshealth@wales.gsi.gov.uk

Post: Iechyd Oedolion a Phlant, Y Gyfarwyddiaeth Feddygol, Llywodraeth Cymru Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Gwybodaeth ychwanegol

Ffon: 029 2082 3485.

Hefyd ceir dogfen dechnegol fanylach a ddatblygwyd gan ein strwythurau cynghorol clinigol, a gallech fod am roi sylw i hon wrth ystyried y Cynllun drafft. Gellir cael gafael ar y ddogfen dechnegol hon ar wefan Tîm Craidd Grwp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol (NSAG) Canser .

## LANSIO GWASANAETH MEDDYGINIAETH "GARTREF O'R YSBYTY" NEWYDD Y GIG YN FFERYLLFEYDD CYMUNEDOL CYMRU

Ar 1af Tachwedd, 2011 lansiwyd gwasanaeth meddyginiaeth newydd gan GIG Cymru "Gartref o'r Ysbyty" fydd ar gael o fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru a groesawyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

Cynlluniwyd **Gwasanaeth Meddyginiaethau Rhyddhau o Ysbyty** newydd GIG Cymru i sicrhau fod pobl sy'n dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty neu mewn gofal arall yn parhau i dderbyn eu meddyginiaeth gywir. Bydd y gwasanaeth yn galluogi ysbytai, cartrefi nyrsio a chartrefi gofal yn ogystal â chleifion eu hunain, i fynd a neu anfon copi o'r Llythyr Cyngor Rhyddhau o'r Ysbyty, a gaiff ar hyn o bryd eu hanfon at eu meddyg teulu yn unig, i'w fferyllfa leol hefyd. Bydd y fferyllydd wedyn yn sicrhau fod y presgripsiynau mae'r feddygfa yn eu dosbarthu yn y dyfodol yn cynnwys yr holl feddyginiaethau mae'r cleifion eu hangen i drin eu gwahanol gyflyrau.

Ar hyn o bryd rhoddir y Llythyr Cyngor Rhyddhau o'r Ysbyty i'r claf ac anfonir copi at eu meddyg teulu. Dangosodd astudiaethau fod o leiaf chwarter y llythyrau yn methu cyrraedd y feddygfa o fewn pythefnos, ac erbyn hynny mae presgripsiwn newydd wedi ei roi yn cynnwys meddyginiaeth anghywir. Yn aml iawn mae hyn yn golygu fod cleifion yn gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty oherwydd nad ydynt wedi cael y feddyginiaeth gywir.

Pan fydd y fferyllfa a enwir gan y claf yn cael copi o'r llythyr bydd y fferyllfa'n trefnu i gwrdd, neu gael sgwrs ffôn gyda'r claf, neu berthynas, gofalwr neu gynrychiolydd a enwir gan y claf.

Mae manylion pellach am y gwasanaeth ar gael ar wefan Fferylliaeth Gymunedol Cymru www.cpwales.org.uk

## Digwyddiad Polisi Rhanbarthol Bil Datblygu Cynaliadwy a Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol

Bydd y digwyddiadau hyn yn cynnig cyfle i'r trydydd sector ymwneud â'r broses o feddwl am yr hirdymor am les ein dinasyddion, ein heconomi a'n hamgylchedd, gan adeiladu dyfodol gwell i Gymru

- **Dydd Iau 26 Ionawr 2012 Neuadd Morfa, Y Rhyl**

Mae'r heriau rydym yn eu hwynebu yn cynnwys economi gynaliadwy, mynd i'r afael ag amddifadedd, gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd, hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, a sicrhau ein bod yn byw o fewn gallu ein planed i'n cynnal – y cyfan o fewn cyfyngiadau ariannol.

Gallwn wneud hyn drwy ddefnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i wneud ein penderfyniadau, a dyma mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyflawni drwy gyflwyno'r Bil Datblygu Cynaliadwy.

Bydd sesiwn y bore yn helpu'r trydydd sector ddeall pam fod datblygu cynaliadwy yn berthnasol iddynt a sut gallant lunio'r ddeddfwriaeth arfaethedig i sicrhau ei bod yn gweithio ar gyfer dinasyddion Cymru.

Bydd sesiwn y prynhawn yn rhoi cyfle i'r sector ddeall pam bod yr amgylchedd naturiol hefyd yn rhan hanfodol o les ein cymunedau.

Gall cyfranogwyr fynychu naill sesiwn neu'r llall neu'r ddwy sesiwn.

I gael ffurflenni archebu a rhagor o wybodaeth am y gweithdai ymwelwch â www.wcva.org.uk,
ebostiwch eventsadmin@wcva.org.uk neu cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

## Y Diweddaraf ar Ysbyty HM Stanley - Rhagfyr 2011

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi'r newyddion diweddaraf i chi ynglyn â symud gwasanaethau o safle HM Stanley. Ymhlith y gwasanaethau clinigol mae offthalmoleg, adsefydlu strôc ac ysbyty dydd ynghyd â chlinigau cleifion allanol cyffredinol.

Mae Tîm Prosiect BIPBC yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth a gafwyd gan y Cyngor Iechyd Cymuned i fynd â Chamau Gweithredu'r prosiect yn ei flaen a hwyluso ail-ddarparu gwasanaethau.

Mae gwasanaethau wedi cael eu symud fesul cam i sicrhau fod diogelwch clinigol ac ansawdd y gwasanaethau yn cael eu cynnal bob amser. Disgrifir y cynnydd hyd at Ragfyr 2011 yn fyr isod:

**Cam 1:** Adsefydlu Strôc - Symudwyd y gwasanaethau adsefydlu strôc i Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mai 2011. Cwblhawyd y gwaith adeiladu fel bod y gwasanaethau adsefydlu gyferbyn â'r gwasanaeth strôc llym, yn unol â chanllawiau arfer clinigol gorau. Dynodwyd cynlluniau i gael tŷ haul a gardd fel blaenoriaeth ac maent yn awr yn cael eu datblygu er mwyn ychwanegu at brofiadau a gofal cleifion.

**Cam 2:** Cleifion Allanol - Ar 13 Mehefin 2011 , symudodd y clinigau cleifion allanol cyffredinol a gynhaliwyd yn Ysbyty H.M Stanley i adeilad cleifion allanol newydd yn Ysbyty Glan Clwyd o'r enw "Adeilad Ivor Lewis". Mae'r adeilad hwn gyferbyn â'r Labordy Cathetreiddio yn y maes parcio i'r chwith o'r adran Damwain ac Argyfwng yn Ysbyty Glan Clwyd.

**Cam 3:** Bydd gwasanaethau offthalmoleg yn symud i Ysbyty Abergele yng Ngwanwyn 2012. I ddechrau, bydd y gwasanaeth yn yr un lle â Chleifion Mewnol Orthopaedeg ar safle Abergele. Mae hwn yn fesur dros dro tra bod y gwaith o dynnu asbestos o'r theatrau yn Ysbyty Glan Clwyd yn mynd yn ei flaen. Yna, bydd cleifion mewnol Orthopaedeg yn symud i Glan Clwyd. Mae gwaith adeiladu ar y gweill i sicrhau y bydd y gwasanaeth offthalmoleg yn darparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel o safle ysbyty Abergele.

Mae materion cludiant cyhoeddus wedi cael eu hystyried ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu â darparwyr gwasanaethau i sicrhau fod cludiant cyhoeddus, yn cynnwys mynediad corfforol ar gael ar y safle. Er enghraifft, symud y safle bws i gleifion a sicrhau bod y fynedfa i'r ysbyty yn ddiogel gyda digon o arwyddion.

Rydym hefyd bron â gorffen symud staff o'r adrannau corfforaethol yn HM Stanley. Pan fydd y gwasanaeth Offthalmoleg wedi symud yn 2012, bydd safle'r ysbyty yn cael ei ddad-gomisiynu a gwneir cynlluniau i'w werthu. Er mwyn mynd i'r afael â diogelwch wrth i lai o bobl fynd a dod o'r ysbyty, mae mwy o fesurau diogelwch yn cael eu gweithredu, yn cynnwys patrolau diogelwch ar hap yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau.

Bydd Hosbis Sant Cyndeyrn a Phencadlys yr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans yn parhau ar y safle.

Am fwy o wybodaeth ar y datblygiadau hyn, cysylltwch â Barbara Lloyd i ddechrau ar 01745 447632, neu drwy e-bost Barbara.lloyd@wales.nhs.uk

N Bradshaw, Cyfarwyddwr Cynllunio
Rhagfyr 2011

# Cyfleoedd Cynnwys yng Ngogledd Cymru

**Dewis a Meddyginiaeth**

Mae Gwasanaethau Fferylliaeth Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr â dyletswydd i sicrhau fod cleifion yn cael eu hysbysu a'u haddysgu am eu meddyginiaeth. Ar hyn o bryd mae BIPBC yn defnyddio ystod o daflenni i roi gwybodaeth am feddyginiaeth. Mae'r Gwasanaethau Fferylliaeth Iechyd Meddwl yn llunio cynnig i ddefnyddio gwefan Cymru Gyfan o'r enw 'Dewis a Meddyginiaeth' yn hytrach na'r taflenni meddyginiaeth i gleifion. Rydyn ni'n chwilio am grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i roi barn ar y wefan a rhoi adborth arni i BIPBC. Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i chi weld y wefan a rhoi sylwadau ar ba mor hawdd ydi hi i'w defnyddio, a'i haddasrwydd etc. Bydd cynrychiolydd o Fferylliaeth yn y cyfarfod i'ch tywys drwy'r wefan ac ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych chi.

Fe gynhelir y cyfarfod ar Ionawr 30ain 2012 yn y prynhawn yng Nghanolfan Gymunedol Stryd Wellington, Y Rhyl.

Os hoffech chi ddod yno neu os hoffech wybodaeth bellach, cysylltwch â Tina Foulkes ar 01745 816711 neu e-bost asstdirector@unllais.co.uk cyn Ionawr 24ain

**Ydych chi wedi dioddef Trosedd neu wedi bod yn dyst i Drosedd?**

Mae 'Victim Support' yn chwilio am ddioddefwyr trosedd a thystion i drosedd i gymryd rhan mewn grŵp ffocws a fydd yn cael ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth o broblemau y bydd dioddefwyr trosedd a thystion sydd â salwch meddwl neu sy'n gofalu am rywun sydd â salwch meddwl yn eu hwynebu. Os ydych chi wedi bod yn ddioddefwr trosedd neu'n dyst i drosedd yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac nid ydych bellach yn ymwneud â chamau cyfiawnder troseddol neu achos llys sy'n ymwneud â'r drosedd honno, fe hoffem glywed gennych chi. Rydyn ni'n arbennig o awyddus i glywed gan bobl sydd wedi bod yn ddioddefwr neu'n dyst i:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Trais Rhywiol
- Cam-drin domestig
- Trosedd casineb

Mae'r grwp ffocws wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mercher, Ionawr 25ain 2012 yng Nghanolfan Gymunedol Wellington Road yn y Rhyl yn y prynhawn. Mae lleoedd yn gyfyngedig felly mae bwcio'n hanfodol.

*Sylwch, bydd lleisiau'n cael eu recordio yn y cyfarfod i sicrhau fod dyfyniadau cyfranogwyr yn cael eu cofnodi'n gywir. Fe ddinistrir yr holl recordiadau llais unwaith y bydd y wybodaeth angenrheidiol wedi ei chasglu (uchafswm o 10 diwrnod ar ôl y cyfarfod).*

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn y grwp yma, neu os hoffech wybodaeth bellach, cysylltwch â Tina Foulkes ar 01745 816711 neu e-bost asstdirector@unllais.co.uk cyn 19/01/12.

Tudalen newydd i faterion IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES ar wefan CGGSDd www.dvsc.co.uk - cliciwch ar y tab gwybodaeth i fynd i'r dudalen. Os hoffech gynnwys unrhyw wybodaeth yma cysylltwch â joanne@dvsc.co.uk

**Iechyd Meddwl Plant: Cyfathrebu, Cysylltioldeb ac Ymddygiad**

Hwylusir gan: Roger Catchpole o Young Minds.

**Dydd Iau Mawrth 8fed 2012**

**Faenol Fawr, Bodelwyddan**

Am fanylion llawn a ffurflen bwcio cysylltwch ag Yvonne Brookes ar 01745 554061

# Swyddfa Gartref i benderfynu ymhen chwe mis; gwiriadau 'unwaith' i barhau i fod yn rhad ag am ddim

Mae'r llywodraeth yn ystyried codi tâl ar wirfoddolwyr i ddefnyddio'r sustem gwirio cofnodion troseddol 'cludadwy' sy'n dod i rym yn 2013.

O dan y sustem, yn y Protection of Freedoms Bill o flaen y senedd ar hyn o bryd, byddai dau fath o wiriad cofnodion troseddol: un 'unwaith' yn unig ac un cludadwy yn sefydledig ar fas data cofnodion troseddol a gaiff ei ddiweddaru'n barhaus, fyddai'n galluogi unigolyn i weithio neu wirfoddoli i nifer o fudiadau.

Dywedodd llefarydd ar ran y Swyddfa Gartref y byddai gwiriadau 'unwaith' yn parhau i fod am ddim i wirfoddolwyr. Er hyn, dywedodd fod y llywodraeth yn edrych yn fanwl os dylai gwirfoddolwyr dalu tanysgrifiad blynyddol i gael y gwiriad cludadwy.

Dywedodd "Hoffem wneud yr holl sustem yn rhad ag am ddim i wirfoddolwyr, ond 'rydym yn parhau i edrych os bydd raid iddynt dalu, ag fe fydd hyn yn amodol ar gyfrifiadau'r llywodraeth ar gostau."

Dywedodd byddai raid i elusennau a chwmnïau barhau o dalu am bob gwiriad ar staff cyflogedig o dan y sustem newydd. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar lefel y tâl ond "bydd ar lefel angenrheidiol i adennill cost y gwasanaeth".

Dywedodd y llefarydd byddai'r llywodraeth yn gwneud y penderfyniad ar godi tâl neu beidio ar wirfoddolwyr pan ddaw'r Mesur Amddiffyniad Rhyddid yn gyfraith.

Os yw'r mesur yn cael ei basio yn ei ffurf bresennol, bydd pob person sy'n cael gwiriad cofnodion troseddol yn berchen ar rif unigryw. Fe allai elusennau a chyflogwyr sy'n dymuno recriwtio person roi'r rhif i mewn ar wefan, fyddai yn dweud wrthynt os oes unrhyw wybodaeth newydd wedi ei roi ar gofnod y person ers i'r gwiriad gwreiddiol gael ei wneud. Ni fyddai rhaid gofyn am wiriad newydd heblaw bod y wefan yn dangos fod gwybodaeth newydd ar gael. Ni fyddai manylion am y wybodaeth newydd ar gael ar y wefan.

## Angen barn pobl ifanc ar arolwg ar-lein y Cyngor

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Mae pobl ifanc sy'n byw yn Sir Ddinbych yn cael eu hannog i fynd ar-lein a rhoi eu barn yn rhan o'r prosiect Byw a Gweithio yn Sir Ddinbych.

Mae'r prosiect yn rhan o ymgyrch i uchafu proffil Sir Ddinbych fel lle deniadol i fyw a gweithio ymysg pobl ifanc.

Mae'r Cyngor yn awyddus i glywed gan bobl ifanc sy'n byw yn y sir neu'r rheiny sydd o'r sir yn wreiddiol ond wedi symud i ffwrdd i fyw, i astudio neu i weithio.

Mae barn pobl ifanc ar agweddau fel cyfleoedd cyflogaeth, tai, cludiant, hamdden, gwasanaeth a chyfleusterau'n bwysig gan y bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth gadarn ar yr hyn fyddai pobl ifanc yn hoffi ei weld yn cael ei weithredu yn Sir Ddinbych.

Mae'r astudiaeth yma'n ymateb i'r newidiadau demograffig yn y sir. Mae Sir Ddinbych â chanran uchel o boblogaeth hyn (23%) ac mae yna lai o bobl ifanc yn byw yn y sir. O ganlyniad, mae angen i'r Sir addasu ei gwasanaethau i gyfarfod ag anghenion y gymuned, yn ogystal â ffeindio ffyrdd o gadw pobl ifanc yn y sir drwy addysg, hamdden, ffordd o fyw, tai a hyfforddiant.

Dylai'r rheiny sydd am gyfranogi fynd i: www.surveymonkey.com/s/JQW66JK (fersiwn Gymraeg) neu www.surveymonkey.com/s/ G6QVM7T (fersiwn Saesneg) a llenwi'r ffurflen ar-lein.

Mae Anabledd Dysgu Cymru wedi trefnu sesiwn hyfforddiant allai fod o ddiddordeb i chi ac i'ch cydweithwyr. **Deall Pobl ag Anableddau Dysgu** ar **22 Chwefror 2012** yn **Wrecsam**

**Nodau'r Cwrs**
Eich cynorthwyo i ddeall rhagor am y materion sydd yn effeithio ar bobl ag anableddau dysgu a sut y gall pobl a gwasanaethau gael effaith negyddol ar eu bywydau. Bydd y cwrs yn edrych ar sut y gall gwasanaethau a chymdeithas effeithio ar fywydau pobl ag anableddau dysgu a sut i wneud y cyfraniad hwn yn un cadarnhaol.
Anogir y mynychwyr i edrych ar eu canfyddiadau a'u gweithrediadau eu hunain yn ogystal â gar sut y mae eu corf yn gweithio.
Bydd cyfle iddynt edrych ar rai o'r offerynnau ymarferol y gallant eu defnyddio i gynnwys a deall anghenion gwirioneddol y rhai y maent yn gweithio gyda nhw.

Am ragor o fanylion am y cwrs yma a chyrsiau tebyg cysylltwch ag Inacia Rodrigues, Anabledd Dysgu Cymru, **029 2068 1174**
neu

e.bost training@learningdisabilitywales.org.uk

Yn ystod 2012 daw **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)** i rym. Darn o gyfraith sy'n cael ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw mesur.
Mae'r Mesur Iechyd Meddwl yn gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r ffordd gall pobl â phroblemau iechyd meddwl gyrchu gwasanaethau a'u derbyn.
Yng Ngogledd Cymru mae'r Bwrdd Iechyd, meddygon teulu, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod trefniadau ar waith i ddarparu'r gwasanaethau newydd hyn. Mae gan y Mesur oblygiadau ar gyfer staff sy'n gweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a byddwn yn cyhoeddi cylchlythyr bob mis i helpu cydweithwyr i ddysgu am y Mesur, sut bydd yn effeithio arnynt ac unrhyw gamau y mae angen eu cymryd i fod yn barod i'w rhoi ar waith.
Yn y rhifyn cyntaf hwn rydym yn rhoi esboniad cryno o'r Mesur a'r trefniadau prosiect sydd ar waith i roi ei ofynion ar waith yng Ngogledd Cymru. Bydd rhifynnau yn y dyfodol yn rhoi ffocws mwy manwl ar elfennau penodol y Mesur ac yn adrodd ar gynnydd ar weithrediad.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach am y Mesur, goblygiadau lleol a chynnydd ar weithrediad ar wefan y Bwrdd Iechyd sef www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/58653

## CYNGOR GOFAL CYMRU
## Penodi Aelodau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd aelodau'n cael tâl cydnabyddiaeth ar raddfa ddyddiol o £198 (gros) a bydd disgwyl iddynt ymrwymo hyd at ddeuddydd y mis i weithio dros y Cyngor Gofal. Bydd y tâl yn seiliedig ar yr ymrwymiad amser. Bydd aelodau hefyd yn cael costau teithio a chynhaliaeth resymol ar gyfer pob digwyddiad y mae'n ofynnol iddynt ei fynychu.

Mae Cyngor Gofal Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd ei greu i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol ac i wella safonau drwy well hyfforddiant a chydnabyddiaeth. Mae ei aelodau'n gweithio mewn modd agored, tryloyw a chynhwysol i sicrhau bod gwaith y Cyngor yn ystyried buddiannau defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, cyflogwyr, sefydliadau gweithwyr, hyfforddwyr a'r cyhoedd yng Nghymru.

Rydym yn awyddus i benodi tri aelod newydd i'r Cyngor:

- Dau aelod i gynnig persbectif defnyddiwr gwasanaethau
- Un aelod i gynnig persbectif cyfredol y maes addysg uwch a hyfforddiant (gwaith cymdeithasol) yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod yr aelodau'n gallu cynnig dealltwriaeth gyfredol o faterion gofal cymdeithasol yng Nghymru, ynghyd ag arweiniad strategol i waith y Cyngor a'r gallu i gefnogi trefniadau llywodraethu effeithiol. Byddai disgwyl i'r aelodau gynnig persbectif penodol eu maes eu hunain i waith y Cyngor, a dylent fod yn gyfathrebwyr effeithiol a pherswadiol.

**Y Gymraeg**

Mae'r Cyngor Gofal yn awyddus iawn i gynnwys persbectif siaradwyr Cymraeg ar y Cyngor. Ar hyn o bryd, nid oes aelodau Cymraeg eu hiaith ar wahân i'r Cadeirydd. Mae'r Cyngor yn awyddus i fynd i'r afael â hynny, yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Felly, anogir ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg sydd hefyd yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y ddogfen hon.

I gael rhagor o wybodaeth ac i wneud cais, ewch i: www.cymru.gov.uk/penodiadaucyhoeddus neu os oes gennych gwestiynau, cysylltwch â (029) 2082 5454 / hr-helpdesk@wales.gsi.gov.ukY dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **27 Ionawr 2012**. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwnnw. Disgwylir y bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal yn ystod mis Mawrth/Ebrill.

Gwobrau GIG Cymru NHS Wales Awards 2012

## Brysiwch! Dim ond wythnos ar ôl i roi i mewn am Wobrau GIG Cymru 2012

'Nawr yw'r amser i rannu'r gwaith da a wneir gennych i ddarparu gwell gofal i gleifion, o'r ansawdd orau, a chyflwyno eich bwrdd stori i Wobrau Gig Cymru 2012.

**Dyddiad cau: Dydd Gwener 20fed Ionawr 2012**

Manylion llawn: http://www.nliah.wales.nhs.uk/

## Canolfan Gwasanaeth NSPCC Gogledd Cymru - Diwrnod Agored

Bydd Canolfan Gwasanaeth NSPCC Gogledd Cymru yn cynnal diwrnod agored:

**Dydd Mercher 18 Ionawr 2012**
**10am - 4pm**

NSPCC, Tŷ Warren
Rhodfa Warren
Prestatyn LL19 7HT

Darperir lluniaeth ysgafn drwy gydol y dydd. Am fanylion pellach ffoniwch 0844 892 0275 neu e.bost NSPCCnorthwales@NSPCC.org.uk

**RHAGLEN HYFFORDDIANT RHANBARTHOL COST RHESYMOL IONAWR 2012 I EBRILL 2012**

**[Trefnir y cyrsiau fel rhan o'r 'Cyrsiau i Gymunedau Cymru', menter sy'n darparu cyrsiau hyfforddiant fforddiadwy i grwpiau gwirfoddol, gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol lleol yng Nghymru].**

**Mae'r cyrsiau yn £20.00 y pen os na nodir yn wahanol. Darperir cinio ar y cyrsiau diwrnod llawn.**

**Recriwtio, Dethol a Sefydlu Gwirfoddolwyr- Dydd Llun , 23 Ionawr, 2012 - 10.00am i 3.00 pm CGGSD Canolfan Naylor Leyland, Rhuthun**

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Yn gyfarwydd ag amrediad o ddulliau i ddenu amrywiaeth o wirfoddolwyr
- Uniaethu ffyrdd i wneud gwirfoddoli'n fwy hygyrch
- Yn cydnabod fod 'dethol' yn broses ddwy ffordd ag yn gyfarwydd ag amrediad o offer dethol
- Yn gallu paratoi cwestiynau a chynnal cyfweliadau dethol
- Yn deall defnydd dulliau archwiliad, yn cynnwys gwiriad CRB a chydnabod eu cyfyngiadau
- Adnabod potensial defnydd a cham ddefnydd gwybodaeth bersonol gwirfoddolwyr
- Wedi gweld beth sydd angen ei wneud i wella eich ymarferion chi a'ch mudiad

**Hyfforddwr - Gaynor Jones**

**Rôl Swyddogion Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol - Dydd Mercher, 15 Chwefror, 2012- 10.00 am - 3.00 pm - Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, Y Rhyl**

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Wedi canfod swyddogaeth unigol swyddogion mygedol ag
- Yn deall pwysigrwydd ag effaith y swyddogaethau ar y mudiadau
- Yn deall pwrpas a chyfrifoldebau swyddogion mygedol
- Wedi ystyried pa wybodaeth a sgiliau sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'r swyddogaethau penodol

**Hyfforddwr - i'w drefnu**

**Darganfod y Gymysgedd Ariannu Orau - Dydd Mercher, 28 Mawrth, 2012 9.30am - 3.30pm Ystafell Clwyd, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, Y Rhyl**

Erbyn diwedd y sesiwn byddwch

- Yn deall cysyniad ariannu cynaliadwy
- Yn deall pwysigrwydd trefn lywodraethol da a chynllunio
- Deall pam fod angen strategaeth codi arian
- Dod i wybod am ffynonellau ariannu a chyllid newydd (yn cynnwys y broses tendro ag opsiynau masnachu)

**Hyfforddwyr - Jan Smith a Sonia Kendall, CVSC**

**I sicrhau lle ar y cyrsiau cysylltwch â Bronwen Isaac ar 01824 702441 neu e.bost bronwen@dvsc.co.uk**